SHERMAN THEATR • THEATRE

# POLISI DIOGELU DIGIDOL

## CWMPAS A DIBEN

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cyflogai parhaol a thros dro, y Bwrdd, gweithwyr llawrydd a sesiynol, hyfforddeion, lleoliadau gwaith, staff asiantaeth neu unrhyw un sy'n gweithio ar ran Theatr Ieuenctid Sherman.

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau i bob gweithiwr gadw ei hun a'r bobl ifanc y mae'n gweithio â nhw yn ddiogel tra'n gweithio ar-lein ac yn cyfathrebu drwy sianeli digidol. Dylid ei darllen ochr yn ochr â phrif Bolisi Diogelu Theatr y Sherman. Er bod y polisi a'r canllawiau wedi'u hanelu'n fwy penodol at weithio gyda phobl ifanc o dan 18 oed, dylent hefyd fod yn sail i weithio gyda chyfranogwyr rhwng 18 a 25 oed.

Diben y polisi hwn yw:

- Amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Theatr Ieuenctid Sherman ar-lein
- Rhoi i gyflogeion yr egwyddorion cyffredinol sy'n dilyn ein dull o ddiogelu ac amddiffyn plant tra'n gweithio ar brosiectau digidol a phlatfformau ar-lein

## GWEITHIO O BELL GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

*'Mae bod ar-lein yn rhan annatod o fywyd plant a phobl ifanc. Gellir cael mynediad at y cyfryngau cymdeithasol, gemau ar-lein, gwefannau a chymwysiadau ar ffonau symudol, cyfrifiaduron, gliniaduron a llechen – gyda phob un ohonynt yn cyfrannu at fyd ar-lein plant a phobl ifanc. Mae'r rhyngrwyd a thechnoleg ar-lein yn rhoi cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddysgu a datblygu, ond gall hefyd eu hamlygu i risgiau newydd. Dylai E-ddiogelwch fod yn rhan hanfodol o fesurau diogelu ac amddiffyn plant ysgolion a cholegau.'*
NSPCC Dysgu o bell yn ddiogel

## GWEITHIO GARTREF

Pan fydd cyflogeion yn gweithio gartref, bydd ganddynt eu cyfrif personol i gael mynediad at negeseuon e-bost ac i fewngofnodi i ffeiliau. Cedwir pob ffeil ar yriannu cyffredinol y cwmni a dim ond cyflogeion craidd sy'n gallu cael mynediad at fanylion personol a manylion cyswllt.

- Ni chaiff manylion na delweddau o bobl ifanc eu lawrlwytho na'u cadw ar gyfrifiaduron cyflogeion (oni bai ei fod yn gyfrifiadur ar gyfer gwaith yn unig).
- Ni fydd cyflogeion yn rhannu manylion eu cyfrifon na'u manylion mewngofnodi gydag aelodau eraill o staff, a byddant ond yn mewngofnodi i'w cyfrifon personol.
- Os bydd rhaid lawrlwytho delweddau o bobl ifanc i olygu llun neu fideo, caiff ei ddileu yn syth ar ôl ei olygu a chaiff y ffilm wedi'i golygu ei huwchlwytho i weinydd y cwmni.
- Rhoddir dolenni i artistiaid sydd angen mynediad at gynnwys creadigol, gan gynnwys fideos er mwyn iddynt allu gwylio fideos ar-lein ond nid i'w lawrlwytho.
- Bydd cyflogeion bob amser yn cloi eu cyfrifiaduron/gliniaduron cartref neu'n cau dogfennau â gwybodaeth sensitif pan na fyddant wrth y ddyfais.

## CYFATHREBU DRWY E-BOST

Bydd yn ofynnol i gyflogeion gyfathrebu drwy e-bost gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost personol pobl ifanc a dylent bob amser wneud hynny o gyfrif e-bost y cwmni. Mewn achosion o'r fath dylai cyflogeion ddefnyddio iaith eglur er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth i'r derbynnydd. Efallai ei bod yn briodol ychwanegu cyflogai arall i'r e-bost o ran eglurder. Dylai cyflogeion sy'n pryderu am gynnwys e-bost y bydd yn ei anfon neu'n ei dderbyn gan berson ifanc ymgynghori â'r Prif Swyddog Diogelu a enwir isod.

## CYFATHREBU AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Gall Theatr y Sherman ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl ifanc. Y sianeli y gall cyflogeion eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd yw: Twitter, Facebook ac Instagram. Dylid ond cysylltu â phobl ifanc drwy gyfryngau o'r fath drwy gyfrifon y sefydliad a dylent ddilyn y canllawiau a nodir yn y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.

Os bydd un o gyflogeion Theatr y Sherman neu Artist Llawrydd yn derbyn neges amhriodol gan berson ifanc, ni fydd yn anfon y neges ymlaen nac yn ei dileu ond bydd yn cysylltu ar unwaith â'r Prif Swyddog Diogelu i'w hysbysu am y cynnwys ac i ddilyn gweithdrefn achos diogelu'r cwmni (gweler y prif Bolisi Diogelu).

Caiff cyfrifon presennol y sefydliad eu cymedroli gan y:
- Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Prif Swyddog Diogelu – Julia Barry
- Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu – Ed Newsome
- Rheolwr Marchnata – Alice Smith
- Cynorthwyydd Marchnata – Carys Evans

## CYFATHREBU DRWY BLATFFORMAU GRŴP DIGIDOL

Wrth gyfathrebu â phobl ifanc drwy blatfformau digidol, bydd cyflogeion yn defnyddio cyfrifon swyddogol ac yn sicrhau na chaiff rhifau personol pobl ifanc na gweithwyr llawrydd eu rhannu.

Dylid dilyn y protocolau canlynol pan ddefnyddir platfformau fideo/galwad gyda grwpiau o bobl ifanc:

- Dylid asesu risg pob platfform ymlaen llaw a dylai'r rhai sy'n cael eu hystyried yn addas i'w defnyddio gynnwys mesurau lliniaru. Dylid rhannu asesiadau risg gyda phob cyflogai/gweithiwr llawrydd sy'n cynnal sesiynau.
- Dylai cyflogeion/gweithwyr llawrydd ddefnyddio gosodiadau a chyfleusterau diogel iawn ar y platfform a ddewiswyd er mwyn lleihau'r risg o drydydd parti yn cael mynediad i'r sesiynau.
- Cyflogeion a gweithwyr llawrydd fydd yr unig oedolion yn bresennol mewn sesiynau platfform digidol oni bai bod cytundeb ymlaen llaw i eraill fod yn bresennol.
- Bydd o leiaf dau oedolyn yn bresennol ym mhob sesiwn neu caiff y sesiwn ei recordio gan y cyflogai/gweithiwr llawrydd.
- Dylai'r cyflogai neu weithwyr llawrydd fod mewn lleoliad niwtral ble na ellir gweld na chlywed unrhyw beth personol nac amhriodol yn y cefndir.
- Rhaid i gyflogeion fod yn bresennol cyn gwahodd y bobl ifanc i ymuno â'r cyfarfod ar-lein.

- Ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben dylai'r cyflogeion sicrhau bod pob person ifanc wedi gadael yr alwad ac mai dim ond y cyflogeion fydd ar ôl i ddod â'r alwad i ben, a sicrhau na fydd unrhyw un ar ôl gyda pherson ifanc nac unrhyw bobl ifanc wedi'u gadael mewn man digidol a rennir heb oruchwyliaeth.
- Mewn sefyllfaoedd pan fydd mentora un-i-un neu waith ar ddatblygiad creadigol yn cael ei gynnal rhwng person ifanc a chyflogai/gweithiwr llawrydd, bydd rhaid caniatâd rhiant/gofalwr ymlaen llaw ac mae'n rhaid i'r cyfarfod gael ei recordio.
- Mae angen caniatâd pob cyfranogwr ar gyfer pob cyfarfod fydd yn cael ei recordio, waeth beth fo'i oedran, cyn dechrau recordio. Bydd rhaid i gyfranogwyr o dan 18 oed gael caniatâd rhiant/gofalwr ar gyfer y recordiad hwn. Rhaid i gyflogeion nodi'r rheswm penodol dros recordio a sut y caiff y recordiad ei ddefnyddio.
- Rhoddir gwybod i bob rhiant/gofalwr pa blatfformau fydd yn cael eu defnyddio a dyddiad ac amser y sesiynau a pha oedolion fydd i'w gweld ar y platfformau hyn.
- Bydd cyflogeion yn gosod rheolau ymgysylltu eglur i bawb sy'n gweithio ar blatfformau digidol. Bydd y rheolau hyn yn unol â rheolau'r cwmni wrth weithio wyneb-yn-wyneb.
- Bydd cyflogeion hefyd yn atgoffa pobl ifanc nad yw'n fan preifat a bydd y grŵp a/neu gyflogeion/gweithwyr llawrydd sy'n gweithio ar y prosiect yn gallu gweld unrhyw beth y byddant yn ei rannu ar-lein.
- Caiff unrhyw berson ifanc fydd yn torri'r rheolau y cytunwyd arnynt eu tynnu oddi ar y platfform gan gyflogeion a rhoddir gwybod i'r rhiant/gofalwr.

## DERBYN DATGELIAD AR-LEIN NEU DRWY FFÔN SYMUDOL

Rydym yn deall y gall pobl ifanc weithiau ddatgelu gwybodaeth i gyflogeion mewn galwadau neu'n ddigidol.

Os bydd cyflogai yn derbyn neges a allai awgrymu bod y person ifanc sy'n cyfathrebu ag ef/hi mewn perygl, yn ystod oriau gwaith neu'r tu allan iddynt, dylid atgyfeirio'r neges at y Prif Swyddog Diogelu ar unwaith, yn ddelfrydol drwy siarad â'r swyddog wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn. Bydd yr Arweinydd Diogelu yn dilyn gweithdrefnau diogelu Theatr y Sherman. Os na fydd y cyflogai yn gallu cysylltu â'r Arweinydd Diogelu, dylai ddilyn y weithdrefn isod:

- Gofynnwch i'r person ifanc – Beth sy'n digwydd? Ble wyt ti? Ni ddylai'r cyflogai geisio datrys y broblem.
- Cysylltwch â rhiant/gofalwr y person ifanc, neu – os yw'n berthnasol – gweithiwr cymdeithasol/gweithiwr allweddol y person ifanc hwnnw. Os na chewch ateb, ffoniwch y gwasanaethau brys ar 999 a rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl.
- Ysgrifennwch adroddiad achos ar y sefyllfa o fewn 24 awr i'w anfon at y Prif Swyddog Diogelu.

## RHANNU GWAITH A GRËWYD AR-LEIN

Wrth rannu gwaith a grëwyd ar-lein bydd Theatr Sherman yn dilyn y camau canlynol:

- Cael caniatâd rhiant/gofalwr i dynnu llun a fideo o blentyn o dan 18 oed.
- Rhannu'r gwaith terfynol â'r bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr cyn ei rannu'n gyhoeddus pan fyddant o dan 18 oed neu mewn perygl/angen cymorth ychwanegol.
- Peidio â defnyddio cyfenw plentyn/person ifanc mewn llun na fideo.
- Defnyddio delweddau o blant/pobl ifanc mewn dillad addas yn unig er mwyn lleihau'r risg o ddefnydd amhriodol.
- Rhannu cynnwys ond drwy gyfrifon swyddogol.

Os, am ba bynnag reswm, nad yw'r rhiant/gofalwr person ifanc o dan 18 oed yn fodlon ar y ffordd y caiff y cynnwys ei ddefnyddio, ni fydd y cwmni'n rhannu'r cynnwys.

Mae Theatr Sherman yn ymrwymedig i adolygu'r polisi a'r arfer da hwn yn flynyddol ac ar unrhyw adeg pan fydd newid i'r gyfraith.

**Manylion cyswllt**

Arweinydd Diogelu
Julia Barry
E-bost/Ffôn – Julia.barry@shermantheatre.co.uk / 02920 646979 /07887 600081

Dirprwy Swyddog
Diogelu Sally
Shepherd
E-bost/Ffôn – sally.shepherd@shermantheatre.co.uk / 029020 646949

**Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt perthnasol pellach yma:**

https://www.childreninwales.org.uk/cy/amdanom_ni/

Rydym yn ymrwymedig i adolygu ein polisi yn flynyddol. Crëwyd y polisi cyntaf ar 27 Gorffennaf 2020.

Llofnodwyd ………J. Barry…………

……………………..

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Mehefin 2024
Dyddiad diweddaru:  12/06/2023